PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

CYMRU IFANC YOUNG WALES

# Cylch Gorchwyl Cymru Ifanc

## Bwrdd Ymgynghorol Addysg a Hyfforddiant

### Beth yw'r grŵp yma?

Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Addysg a Hyfforddiant yn lle i bobl ifanc drafod eu haddysg a'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant fydd ar gael yng Nghymru yn y dyfodol.

Os ydych chi rhwng 11 ac 15 oed, byddwn ni'n canolbwyntio ar drafod yr ysgol, ac unrhyw heriau gallech chi fod yn eu hwynebu sy'n rhwystro eich addysg. Rydyn ni eisiau gweithio gyda'n gilydd i greu gwell cyfleoedd i bobl ifanc, ac rydyn ni eisiau eich mewnbwn!

Yn achos pobl ifanc sy'n 16 oed a throsodd, rydyn ni'n plymio i'r Gwarant Pobl Ifanc. Ymrwymiad yw hwn mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gynnig cefnogaeth barhaus i bobl ifanc yng Nghymru, fel eu bod yn cael lle mewn addysg neu hyfforddiant, yn cael hyd i swydd, neu'n dod yn hunangyflogedig. Gadewch i ni drafod y ffordd orau o fanteisio'n llawn ar hyn!

### Beth yw nodau'r grŵp?

Dyma'r darlun mawr – rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rymuso holl blant a phobl ifanc Cymru i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Rydyn ni'n creu lle diogel i bobl ifanc sgwrsio am addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru, gyda phobl ifanc eraill sy'n pryderu am hynny. Oes gennych chi syniad gwych fyddai'n gwneud addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn well fyth? Rydyn ni'n glustiau i gyd – dewch i ni drafod!

Gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn mynychu ein sesiynau'n rheolaidd, rydyn ni'n trosglwyddo'r meic i bobl ifanc, er mwyn helpu i ddylanwadu ar y polisïau, y gweithdrefnau a'r ddeddfwriaeth sy'n ffurfio addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru.

### Pryd bydd y grŵp yma'n cwrdd?

Bydd y grŵp Addysg a Hyfforddiant yn cwrdd bob yn ail fis, ar ddydd Sadwrn rhwng 10am a 12pm.

| | |
|---|---|
| 2024 | Dydd Sadwrn 13 Ebrill<br>Dydd Sadwrn 8 Mehefin<br>Dydd Sadwrn 17 Awst<br>Dydd Sadwrn 12 Hydref<br>Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr |
| 2025 | Dydd Sadwrn 8 Chwefror |

### Pobl Gyswllt

Rachel Clement- rachel.clement@childreninwales.org.uk
Frances Hoey- frances.hoey@childreninwales.org.uk

# Cylch Gorchwyl Cymru Ifanc

## Bwrdd Ymgynghorol Gofalwyr Ifanc

**Beth yw'r grŵp yma?**
Mae'r Grŵp Ymgynghorol Gofalwyr Ifanc yn grŵp ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed sydd â phrofiad bywyd o fod yn ofalwr ifanc, i drafod a rhannu eu profiadau gyda gofalwyr ifanc eraill.

**Beth yw nodau'r grŵp?**
Ein prif nod? Grymuso gofalwyr ifanc, gwneud yn siŵr bod eich lleisiau'n cael eu clywed yn uchel ac yn glir, a chreu newid cadarnhaol i wella bywyd i chi!

Mae eiriol dros hawliau gofalwyr ifanc, eu hanghenion a'u llesiant yn allweddol i waith y grŵp yma – rydyn ni eisiau darparu man diogel lle gallwch chi rannu eich profiadau fel Gofalwr Ifanc a theimlo eich bod yn cael eich deall.

Rydyn ni eisiau bwrw goleuni ar eich profiadau – rhoi' r gair ar led a chynyddu ymwybyddiaeth! Dyna pam rydyn ni'n rhoi cyfle i swyddogion Llywodraeth Cymru fynychu ein sesiynau a gwrando ar beth sydd gennych chi i'w ddweud. Mae eich llais chi'n bwysig, ac rydyn ni eisiau sicrhau bod eich profiadau chi yn dylanwadu ar y rheolau a'r cyfreithiau sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc yng Nghymru.

**Pryd bydd y grŵp yma'n cwrdd?**
Bydd y Bwrdd Ymgynghorol Gofalwyr Ifanc yn cwrdd bob yn ail fis, ar ddydd Sadwrn rhwng 1pm a 3pm.

| | |
|---|---|
| 2024 | Dydd Sadwrn 13 Ebrill<br>Dydd Sadwrn 8 Mehefin<br>Dydd Sadwrn 17 Awst<br>Dydd Sadwrn 12 Hydref<br>Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr |
| 2025 | Dydd Sadwrn 8 Chwefror |

**Person Cyswllt**
Rachel Clement- rachel.clement@childreninwales.org.uk

# Cylch Gorchwyl Cymru Ifanc

## Bwrdd Ymgynghorol Iechyd Meddwl a Llesiant Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol (NYSG)

### Beth yw'r grŵp yma:

Mae Grŵp Iechyd Meddwl a Llesiant Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol (NYSG) yn lle diogel i bobl ifanc 11-25 oed drafod eu profiadau o ran gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru. Gallwch chi fod yn rhan o hyn os oes gennych chi brofiad bywyd yn y maes, neu os oes gennych chi ddiddordeb cyffredinol – plymiwn i mewn gyda'n gilydd a gwneud gwahaniaeth!

### Beth yw nodau'r grŵp?

Ein prif genhadaeth? Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd meddwl neu lesiant yn cael mynediad at hynny.

I wneud hynny, rydyn ni eisiau clywed eich meddyliau – gall eich syniadau chi gael effaith fawr! Rydyn ni eisiau darparu platfform i bobl ifanc drafod iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, gydag eraill sydd â diddordeb yn y mater yma.

Mae Cymru Ifanc wedi ymrwymo i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed, a bod newid gwirioneddol yn digwydd. Gan fod Llywodraeth Cymru yn dod i'r sesiynau, trwy rannu yn ein grŵp, rydych chi'n helpu i greu'r rheolau a'r cyfreithiau sy'n effeithio ar wasanaethau yng Nghymru.

### Pryd bydd y grŵp yma'n cwrdd?

Bydd NYSG Iechyd Meddwl a Llesiant yn cwrdd bob yn ail fis, ar ddydd Sadwrn rhwng 3pm a 5pm.

| | |
|---|---|
| 2024 | Dydd Sadwrn 13 Ebrill<br>Dydd Sadwrn 8 Mehefin<br>Dydd Sadwrn 17 Awst<br>Dydd Sadwrn 12 Hydref<br>Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr |
| 2025 | Dydd Sadwrn 8 Chwefror |

### Person Cyswllt

Russell Baker- russell.baker@childreninwales.org.uk

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

CYMRU IFANC YOUNG WALES

# Cylch Gorchwyl Cymru Ifanc

## Bwrdd Ymgynghorol Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid Hinsawdd

**Beth yw'r grŵp yma:**
Mae'r Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid Hinsawdd yn ymwneud â rhoi llais i bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru, a sicrhau bod eich meddyliau ynghylch beth sy'n digwydd yn ein byd yn cael eu clywed yn uchel ac yn glir. Rydyn ni'n mynd i'r afael â materion mawr fel tegwch, tlodi ac achub ein planed ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Gadewch i ni wneud Cymru'n lle gwell i bawb!

**Beth yw nodau'r grŵp?**
Mae ein grŵp yn lle diogel i sgwrsio am gyfiawnder cymdeithasol a newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, gyda phobl ifanc eraill sy'n pryderu am y pwnc. Trwy gydweithio, rydyn ni eisiau creu Cymru lle mae pobl ifanc yn cael cyfle teg, a lle mae ein planed yn ffynnu.

Oes gennych chi syniad arloesol ar gyfer gwneud Cymru'n decach ac yn fwy gwyrdd? Rhannwch e gyda ni! Gall eich llais chi sbarduno newidiadau mawr. Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, byddwch chi'n cael cyfle i rannu eich barn a'ch syniadau rhyfeddol.

Trwy rannu eich meddyliau, byddwch chi'n helpu i lunio'r rheolau a'r cyfreithiau sy'n effeithio ar gyfiawnder cymdeithasol a newid hinsawdd yng Nghymru. Gadewch i ni gorddi'r dyfroedd!

**Pryd bydd y grŵp yma'n cwrdd?**
Bydd y Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid Hinsawdd yn cwrdd bob yn ail fis, ar ddydd Sadwrn rhwng 10am a 12pm.

| | |
|---|---|
| 2024 | Dydd Sadwrn 11 Mai<br>Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf<br>Dydd Sadwrn 15 Medi<br>Dydd Sadwrn 9 Tachwedd |
| 2025 | Dydd Sadwrn 18 Ionawr<br>Dydd Sadwrn 8 Mawrth |

**Person Cyswllt**
Ilona Carati- ilona.carati@childreninwales.org.uk

## Cylch Gorchwyl Cymru Ifanc

## Bwrdd Ymgynghorol Teimlo'n Ddiogel (Ar-lein ac mewn Perthnasoedd)

### Beth yw'r grŵp yma?

Diben y Bwrdd Ymgynghorol Teimlo'n Ddiogel (Ar-lein ac mewn Perthnasoedd) yw gwneud i chi deimlo'n gyfforddus a'ch bod yn cael eich parchu, ar-lein ac mewn perthnasoedd. Mae'n bodoli ar gyfer unrhyw un 11-25 oed sydd â diddordeb yn y mater yma.

### Beth yw nodau'r grŵp?

Ein nod mawr? Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cadw'n ddiogel, p'un a ydyn nhw ar-lein neu'n treulio amser gydag eraill.

Rydyn ni eisiau rhoi lle diogel i blant a phobl ifanc drafod cadw'n ddiogel ar-lein ac yn eu perthnasoedd, gyda phobl ifanc eraill sydd â diddordeb yn yr un materion.

Bydd yn rhoi cyfle i chi rannu eich syniadau ynghylch sut mae gwneud mannau ar-lein yn fwy diogel, a sut mae helpu pobl ifanc yng Nghymru i gael cyfeillgarwch a pherthynas iach, diogel gydag eraill.
Trwy gysylltu Llywodraeth Cymru â phlant a phobl ifanc, mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddylanwadu ar y rheolau a'r cyfreithiau ynghylch cadw'n ddiogel ar-lein a chael perthnasoedd iach.

### Pryd bydd y grŵp yma'n cwrdd?

Bydd y Grŵp Teimlo'n Ddiogel (ar-lein ac mewn perthnasoedd) yn cwrdd bob yn ail fis, ar ddydd Sadwrn rhwng 1pm a 3pm.

| | |
|---|---|
| 2024 | Dydd Sadwrn 11 Mai<br>Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf<br>Dydd Sadwrn 15 Medi<br>Dydd Sadwrn 9 Tachwedd |
| 2025 | Dydd Sadwrn 18 Ionawr<br>Dydd Sadwrn 8 Mawrth |

### Person Cyswllt

Claire Hathway- Claire.hathway@childreninwales.org.uk

# Cylch Gorchwyl Cymru Ifanc

## Bwrdd Ymgynghorol LHDTC+

### Beth yw'r grŵp yma?
Mae ein grŵp LHDTC+ yn cynnig man diogel lle gall pobl ifanc LHDTC+ a'u cefnogwyr drafod pynciau sydd o bwys iddyn nhw, adolygu polisïau ac ymarfer, a chael mewnbwn trwy gyflwyno argymhellion.

Gall unrhyw un 11-25 oed sy'n LHDTC+ neu'n cefnogi hawliau LHDTC+ ymuno!

### Beth yw nodau'r grŵp?
Ein prif nod? Cydweithio i sicrhau bod Cymru mor groesawgar a diogel â phosib ar gyfer pob plentyn ac oedolyn ifanc LHDTC+.

Rydyn ni eisiau darparu man diogel i bobl ifanc sgwrsio am faterion LHDTC+ gyda phobl ifanc eraill sydd â diddordeb, fel eich bod yn cael cyfle i rannu eich meddyliau ynghylch sut mae gwella hawliau LHDTC+ yng Nghymru.

Trwy roi Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phobl ifanc er mwyn clywed eu syniadau ynghylch sut mae hybu hawliau LHDTC+ yng Nghymru, rydyn ni'n grymuso pobl ifanc i ddylanwadu ar bolisïau Llywodraeth Cymru, eu ffyrdd o wneud pethau, a'r cyfreithiau cysylltiedig â hawliau LHDTC+.

### Pryd bydd y grŵp yma'n cwrdd?
Bydd y Grŵp Ymgynghorol LHDTC+ yn cwrdd bob yn ail fis, ar ddydd Sadwrn rhwng 3pm a 5pm.

| | |
|---|---|
| 2024 | Dydd Sadwrn 11 Mai<br>Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf<br>Dydd Sadwrn 15 Medi<br>Dydd Sadwrn 9 Tachwedd |
| 2025 | Dydd Sadwrn 18 Ionawr<br>Dydd Sadwrn 8 Mawrth |

### Person Cyswllt
Emily Ruck- emily.ruck@childreninwales.org.uk